# Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

**2023 dsc 4**

## RHAN 1

RHEOLI TIR YN GYNALIADWY

*Yr amcanion*

### 1 Yr amcanion rheoli tir yn gynaliadwy

(1) Mae'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy fel a ganlyn.

(2) Yr amcan cyntaf yw cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy, ac wrth wneud hynny—

(a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a

(b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2).

(3) Yr ail amcan yw lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd, ac wrth wneud hynny—

(a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a

(b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(4) Y trydydd amcan yw cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu, ac wrth wneud hynny—

(a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a

(b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(5) Y pedwerydd amcan yw cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd, ac wrth wneud hynny—

(a) diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain, a
(b) cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

(6) At ddibenion yr amcan cyntaf, mae'r ffactorau sy'n berthnasol i ba un a yw bwyd a nwyddau eraill yn cael eu cynhyrchu mewn modd cynaliadwy yn cynnwys gwytnwch busnesau amaethyddol o fewn y cymunedau y maent yn gweithredu ynddynt a'u cyfraniad i'r economi leol, ymysg pethau eraill.

(7) At ddibenion y trydydd amcan, mae'r ffactorau sy'n berthnasol i wytnwch ecosystemau yn cynnwys, ymysg pethau eraill—
(a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
(b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt;
(c) graddfa ecosystemau;
(d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad);
(e) gallu ecosystemau i addasu.

(8) At ddibenion y pedwerydd amcan, mae "adnoddau diwylliannol" yn cynnwys treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol, ymysg pethau eraill.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 1 mewn grym ar 17.10.2023, gweler **a. 56(2)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, Adran 1.